# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Joe Hale | Adran Etholiadol: | St Thomas |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cafwyd cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd y daeth llawer o bobl iddynt ar y cyfan.

Yn y cyfarfodydd hyn, gwnaethom wahodd swyddog y cyngor o adran i ymdrin â phwnc llosg. Cafodd hyn groeso mawr gan y preswylwyr ac roedd yn ffynhonnell wybodaeth amhrisiadwy.

Hefyd, cawsom gymorthfeydd ward misol. Daeth llai o bobl i'r rhain, ond rwy'n credu bod hynny oherwydd llwyddiant ein cyfarfodydd preswylwyr.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 12 | 50 | % |
| Y cyngor | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 2 | / | 8 | 25 | % |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALl | 8 | / | 10 | 80 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 2 | / | 6 | 33 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 1 | / | 3 | 33 | % |
| CYFFREDINOL | 41 | / | 65 | 63 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd St Thomas ac Ysgol Gynradd Dan-y-graig.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Cynhaliwyd sawl menter ward yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gais preswylwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:-

Datblygu parc sglefrio ym Mharc Maesteg a gwella'r cyfleusterau chwarae ym Mharc Maesteg.

Lle picnic â ffensys o'i gwmpas ger Canolfan Gymunedol Ashlands ym Mhort Tennant (diolch i'r tîm NEAT).

Clirio lonydd ar draws y ward yn rheolaidd.

Mwy o hysbysiadau, biniau a phatrolau baw cŵn.

Adolygiad helaeth o barcio preswylwyr mewn sawl stryd ar draws y ward a chyflwyno parthau 20mya.

Hefyd, gosodwyd 'rhwystr byw' ar Ffordd Fabian, sy'n gwahanu St Thomas rhag SA1. Mae'r rhwystr byw'n ymdrech i atal cerddwyr rhag croesi Ffordd Fabian yn y mannau anghywir a rhoi eu hunain a modurwyr mewn perygl.

Cymerais ran fawr yn y prosiect Cymunedau'n Gyntaf a'r gefnogaeth barhaus ar gyfer creu swyddi lleol a datblygu Morlyn Llanw Abertawe.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Ymgymerais â'r hyfforddiant llywodraethwyr canlynol:

22/11/2013 Diwallu Anghenion Plant

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Er ein bod wedi gweithio'n ddiflino, mae gennym lawer i'w gyflawni o hyd.

Prif amcanion y flwyddyn i ddod:-

Pompren ar draws Ffordd Fabian. Croesfan ar Heol Foxhole i breswylwyr Ystad Parc Grenfell.

'Celf ar Draws y Ddinas' yn symud o ganol y ddinas ac yn mynd ar draws y ddinas i ardaloedd fel St Thomas a Phort Tennant. (Mae celf yn bwerus, ond yn cael mwy o effaith ar y rhai sy'n gweld eu hunain yn ddi-rym').

Codi ymwybyddiaeth preswylwyr o'r rôl y gallant ei chwarae wrth wneud penderfyniadau gwleidyddol (parhaol).

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28.05.14 |